**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Hydref 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Hydref 2024 |

**PWNC**

Eitem 6: LLECHEN LÂN – GWASANAETHAU CYMDEITHASOL POBL HŶN I'R DYFODOL

---

**PENDERFYNIAD**

- Derbyniwyd canlyniadau gwaith Llechen Lân - Gwasanaethau Cymdeithasol Pobl Hŷn i'r Dyfodol (Atodiad 1).
- Mabwysiadwyd cyfeiriad strategol a chynllun gweithredu Llechen Lân (Atodiad 2).

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Rhagwelir y bydd y cyfuniad o'r heriau ariannol, effaith yr heriau demograffeg ar adnoddau dynol, ac effaith yr heriau demograffeg ar y galw am wasanaethau yn creu sefyllfa o fethiant i'r gwasanaethau pobl hŷn, oni wneir rhywbeth ar frys i newid y sefyllfa.

Y cam cyntaf at wneud hynny oedd cydnabod yr her a'i deall yn iawn – sef yr hyn a welir yn adroddiad ymchwil Llechen Lân.

Y cam nesaf yw mabwysiadu cyfeiriad a chynllun ar gyfer y ffordd rydym am weithio i'r dyfodol, er mwyn lleihau ardrawiad y newidiadau demograffeg ar wasanaethau pobl hŷn Gwynedd.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Hydref 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Hydref 2024 |

**PWNC**

Eitem 7: ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2023-2024

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad sy'n adrodd ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn 2023-24.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Rhiant Corfforaethol yn ystod y cyfnod. Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Hydref 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Hydref 2024 |

**PWNC**

Eitem 8: ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad a chymeradwywyd yr argymhellion.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae cyflwyno'r adroddiad hwn gerbron y Cabinet yn flynyddol yn rhan o drefniadau rheoli iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor. Mae'n hanfodol bod gan aelodau'r Cabinet drosolwg llawn o sefyllfa'r Cyngor yn y maes pwysig yma.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Hydref 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Hydref 2024 |

**PWNC**

Eitem 9: ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ar gyfer adlewyrchu ar y strategaeth gorfforaethol yn y maes allweddol hwn i'r dyfodol. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r prif weithgareddau ym maes cyflogaeth o fewn y Cyngor yn ystod 2023/24.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Hydref 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Hydref 2024 |

**PWNC**

Eitem 10: CYNLLUN A FFIOEDD PARCIO

---

**PENDERFYNIAD**

1.1 Cymeradwywyd a galluogwyd y Gwasanaeth Parcio i fwrw ymlaen i wireddu dau gynllun arbedion sydd wedi eu cymeradwyo gan Gabinet y Cyngor yn 2023/24, sef:
- 1.1.1 Cynyddu ffioedd parcio Pen y Gwryd o £2.00 am hanner diwrnod a £4.00 am ddiwrnod llawn i £4.00 am 6 awr a £8.00 am 12 awr.
- 1.1.2 Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol o £140 i £145 y flwyddyn a phris Tocyn Parcio Lleol o £70 i £75 y flwyddyn.

1.2 Cymeradwywyd a galluogwyd y Gwasanaeth Parcio i fwrw ymlaen i wireddu dau gynllun arbedion sydd angen ystyriaeth bellach cyn dod i benderfyniad terfynol yn 2024/25, sef:
- 1.2.1 Ymestyn oriau gorfodaeth meysydd parcio arhosiad byr o 10:00 hyd at 16:30 i 9:00 hyd at 17:00.
- 1.2.2 Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2 yn unol a'r hyn a welwch yn Atodiad A.

1.3 Cytunwyd cynyddu holl ffioedd parcio 40% i alluogi'r Gwasanaeth Parcio gyfarch targed incwm sydd yn creu diffyg sylweddol yn y cyllidebau.

1.4 Nodwyd petai Aelodau'r Cabinet yn penderfynu cymeradwyo'r cynlluniau arbed a nodir oddi fewn 1.2.1 ac 1.2.2 bydd 10 diwrnod o gyfnod segur cyn medru trosglwyddo'r mater i Adran Gyfreithiol y Cyngor er mwyn cyflawni cyfnod ymgynghori statudol yn unol a Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol.

1.5 Nodwyd, fel rhan o'r cyfnod ymgynghori, bydd gofyn hanfodol i'r Cyngor hysbysebu'r newidiadau arfaethedig yn y papurau newydd lleol yn ogystal ag arddangos y wybodaeth (cynnwys y ffioedd newydd) mewn safle amlwg yn y meysydd parcio a cheir eu heffeithio.

1.6 Cadarnhawyd y bwriad o fwrw mlaen gyda'r paratoadau er mwyn gweithredu'r holl newidiadau o 1af Ebrill 2025.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

I ddiweddaru’r strategaeth barcio a chynnig datrysiadau priodol er mwyn cyfarch lefel incwm digonol sydd yn ddisgwyliedig o’r Adran.

Rhaid cydnabod bod parcio yn medru bod yn fater cynhennus a bod cynigion ar gyfer rheoli parcio yn medru ysgogi teimladau cryf o bersbectif personol a lleol. Fodd bynnag, rhaid edrych ar y darlun sirol ac mae adolygu'r trefniadau yn anorfod o ran cynaliadwyedd ariannol yn y cyfnod heriol hwn o ran cyllidebau'r awdurdod.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Hydref 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Hydref 2024 |

## PWNC

Eitem 11: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2023-2024

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd adroddiad Monitro Blynyddol 6 (Atodiad 1) a chytunwyd i'w gyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Hydref 2024.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn gosod allan yr angen i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn flynyddol ac i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref yn flynyddol.

Mi fydd aelodau'r Cabinet yn ymwybodol fod y trefniant cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar faterion polisi cynllunio wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2023 a bod tîm polisi cynllunio newydd wedi cael ei sefydlu ar gyfer Gyngor Gwynedd. Gan fod y trefniant cyd-weithio wedi dod i ben, mae AMB 6 yn adrodd ar y dystiolaeth sydd yn benodol i Wynedd yn unig.

Pwrpas yr Adroddiad yma ydi cyflwyno'r chweched Adroddiad Monitro Blynyddol, sydd yn berthnasol i'r cyfnod 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024. Ynghyd a chyflwyno'r AMB fe gyflwynir trosolwg o sylwadau'r Gweithgor Polisi Cynllunio mewn perthynas â'i gynnwys ac ystyriaeth y Cabinet.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Hydref 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Hydref 2024 |

**PWNC**

Eitem 12: CYLLIDEB REFENIW 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2024

**PENDERFYNIAD**

Gan nodi bod rhagolygon o orwariant o £7.6 miliwn gan adrannau'r Cyngor, derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2024 o'r gyllideb refeniw, a chefnogwyd y camau mae'r Prif Weithredwr wedi eu cyflwyno i ymdrin â'r gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC a'r Adran Amgylchedd.

Cymeradwywyd trosglwyddiad o £1,868k o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Hydref 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Hydref 2024 |

**PWNC**

Eitem 13: RHAGLEN GYFALAF 2024/25 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST

**PENDERFYNIAD**

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2024) o'r rhaglen gyfalaf.

- Cymeradwywyd yr addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 7 Mawrth 2024 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:

- cynnydd o £370,000 mewn defnydd o fenthyca
- cynnydd o £17,080,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- lleihad o £51,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- cynnydd o £1,260,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2024/25 – 2026/27.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Hydref 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Hydref 2024 |

**PWNC**

Eitem 14: TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodwyd y cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2024/25 a blynyddoedd blaenorol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 15 Hydref 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 30 Hydref 2024 |

**PWNC**

Eitem 16: COSTAU SYSTEM GOFAL CYMDEITHASOL NEWYDD (WCCIS)

**PENDERFYNIAD**

- Rhoddwyd awdurdod cyllidol i fwrw ymlaen ar sail yr achos busnes i brynu system ddata Gwasanaethau Cymdeithasol newydd ar y cyd â'r Clwstwr Rhanbarth Gogledd Cymru.
- Er cyflawni (a), rhagdybiwyd y broses ceisiadau ariannol ar gyfer 2025/26 ar gyfer cyllid un-tro ac yna cyllid refeniw blynyddol o 2026 ymlaen.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae WCCIS, y system graidd er mwyn cofnodi a rheoli achosion gwasanaethau cymdeithasol, yn cyrraedd diwedd ei oes yn mis Ionawr 2026.

Os na fydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau eu bod am ariannu system newydd, neu ddim ond yn ariannu rhan o'r gost, yna bydd angen i'r Cyngor flaenoriaethu arian er mwyn cyfarch y costau hyn.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.